Cryfhau partneriaeth gymdeithasol

Strengthening social partnership

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

**Mae'r Deddf yn dwyn ynghyd 4 egwyddor:**

## Partneriaeth Gymdeithasol

Gweithio i gyflawni nod y cytunwyd arno ar y cyd, er budd yr holl grwpiau cysylltiedig.

## Caffael Cymdeithasol Gyfrifol

Gweithredu, wrth brynu nwyddau a gwasanaethau, i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

## Gwaith Teg

Amrywiaeth eang o weithgareddau posibl yn cael eu cyflawni gan gyflogwyr mewn cytundeb â'r gweithlu, sy'n cyfrannu at les a gwell darpariaeth o wasanaethau cyhoeddus.

## Datblygu Cynaliadwy

Gwneud pethau nawr mewn ffordd sydd yn ystyried yr effaith ar bobl fydd yn byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r Deddf yn cyflawni un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i roi statws statudol i bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Mae'n darparu ar gyfer **fframwaith** i wella llesiant pobl Cymru, gan wella gwasanaethau cyhoeddus drwy **weithio mewn partneriaeth gymdeithasol**, **hyrwyddo gwaith teg** a **chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol**.

# Prif ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth

| | |
|---|---|
| **Sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol** | Mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG) yn gorff cynghori statudol teirochrog, dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog, ac yn cynnwys aelodau o blith amrywiaeth o bartneriaid cymdeithasol sy'n cynrychioli cyflogwyr a gweithwyr yng Nghymru. |
| **Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol statudol ar gyrff cyhoeddus penodol** | Rhaid i gyrff cyhoeddus a restrir o dan adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Deddf 2015') gymryd pob cam rhesymol i geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig, neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) â chynrychiolwyr eraill o'u staff:<br>• wrth bennu amcanion llesiant o dan adran 3(2)(a) o Ddeddf 2015, ac<br>• wrth wneud penderfyniadau strategol am y camau rhesymol y mae'r corff yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf 2015. |
| **Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol statudol ar Weinidogion Cymru** | Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ag aelodau sy'n cynrychioli cyflogwyr a gweithwyr drwy'r CPG wrth wneud penderfyniadau strategol am y camau rhesymol y maent yn eu cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant o dan Ddeddf 2015. |
| **Diwygio adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** | Drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith teilwng' yn y nod llesiant presennol i gyflawni 'Cymru lewyrchus', bydd angen i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf 2015 ystyried 'gwaith teg' wrth bennu a chyhoeddi amcanion llesiant a fydd yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gan y corff cyhoeddus at gyflawni'r nodau llesiant. |
| **Dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol** | Dyletswydd statudol ar awdurdodau contractio penodol i ystyried caffael cymdeithasol gyfrifol a nodir yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio bennu a chyhoeddi amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol a fydd yn sicrhau eu cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant o dan Ddeddf 2015. |
| **Cyrff cyhoeddus penodol i gyflawni dyletswyddau rheoli contractau** | Sicrhau bod deilliannau cymdeithasol gyfrifol yn nod clir drwy ddefnyddio cymalau yn eu contractau sy'n ymwneud â phob rhan o'r cadwyni cyflenwi ar gyfer prosiectau adeiladu mawr. Mae'r ddyletswydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhain gael eu monitro. |
| **Y dyletswyddau i adrodd sydd ar gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru** | Rhaid i Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar eu cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. Rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdodau contractio sydd wedi dyfarnu contractau rhagnodedig gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gaffael. Rhaid i Weinidogion Cymru osod adroddiadau gerbron y Senedd. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49676
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Mawrth 2024